



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2020 Rhif 585 (Cy. 133)

2020 No. 585 (W. 133)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

**NATIONAL HEALTH
SERVICE, WALES**

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd
Gwladol (Datgymhwyso Dros Dro
Ddeiliadaeth Swydd) (Cymru)
(Coronafeirws) 2020

The National Health Service
(Temporary Disapplication of
Tenure of Office) (Wales)
(Coronavirus) Regulations 2020

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn datgymhwyso dros dro ddarpariaethau penodol sy'n ymwneud â deiliadaeth swydd aelodau o fyrddau a phwyllgorau cyrff penodol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i ymdrin â'r amharu ar apwyntiadau yn ystod y pandemig COVID-19, er mwyn galluogi aelodau o fyrddau a phwyllgorau sy'n nesáu at ddiwedd eu deiliadaeth i barhau yn y swydd.

Mae rheoliad 2 yn datgymhwyso dros dro uchafswm cyfnod deiliadaeth swydd aelodau ac aelodau cyswllt Byrddau Iechyd Lleol fel y'i rhagnodir yn Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009.

Mae rheoliad 3 yn datgymhwyso dros dro uchafswm cyfnod deiliadaeth swydd cadeirydd a chyfarwyddwyr anweithredol Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru fel y'i rhagnodir yn Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009.

Mae rheoliad 4 yn datgymhwyso dros dro uchafswm cyfnod deiliadaeth swydd cadeirydd ac is-gadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'i aelodau nad ydynt yn swyddogion fel y'i rhagnodir yn Rheoliadau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (Cymru) 2009.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations temporarily disapply certain provisions relating to the tenure of office of board and committee members of particular National Health Service bodies to address the disruption to appointments during the COVID-19 pandemic, so as to enable members of boards and committees who are nearing the end of their tenure to remain in office.

Regulation 2 temporarily disapplies the maximum period of tenure of office of members and associate members of Local Health Boards as prescribed in the Local Health Boards (Constitution, Membership and Procedures) (Wales) Regulations 2009.

Regulation 3 temporarily disapplies the maximum period of tenure of office of the chair and non-executive directors of the Public Health Wales National Health Service Trust as prescribed in the Public Health Wales National Health Service Trust (Membership and Procedure) Regulations 2009.

Regulation 4 temporarily disapplies the maximum period of tenure of office of the chair, vice-chair and non-officer members of the Welsh Health Specialised Services Committee as prescribed in the Welsh Health Specialised Services Committee (Wales) Regulations 2009.

Mae rheoliad 5 yn datgymhwysu dros dro uchafswm cyfnod deiliadaeth swydd cadeirydd ac is-gadeirydd Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre fel y'i rhagnodir yn Rheoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) 2012.

Mae rheoliad 6 yn datgymhwysu dros dro uchafswm cyfnod deiliadaeth swydd cadeirydd ac is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys fel y'i rhagnodir yn Rheoliadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys (Cymru) 2014.

Mae rheoliad 7 yn datgymhwysu dros dro uchafswm cyfnod deiliadaeth swydd aelod nad yw'n swyddog o Addysg a Gwella Iechyd Cymru fel y'i rhagnodir yn Rheoliadau Addysg a Gwella Iechyd Cymru 2017.

Mae rheoliad 8 yn galluogi unrhyw berson a benodir neu a ailbenodir yn unol â'r addasiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn, i barhau â'i gyfnod swydd ac i adael y swydd yn unol â thelerau ei benodiad neu ei ailbenodiad ar ôl diwedd y cyfnod perthnasol, pan fydd datgymhwysu dros dro uchafswm cyfnod deiliadaeth swydd yn peidio â chael effaith.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Regulation 5 temporarily disapplies the maximum period of the tenure of office of the chair and vice-chair of the Velindre National Health Service Trust Shared Services Committee as prescribed in the Velindre National Health Service Trust Shared Services Committee (Wales) Regulations 2012.

Regulation 6 temporarily disapplies the maximum period of the tenure of office of the chair and vice-chair of the Emergency Ambulance Services Committee as prescribed in the Emergency Ambulance Services Committee (Wales) Regulations 2014.

Regulation 7 temporarily disapplies the maximum period of the tenure of office of a non-officer member of Health Education and Improvement Wales as prescribed in the Health Education and Improvement Wales Regulations 2017.

Regulation 8 enables any person appointed or reappointed in accordance with the modifications made by these Regulations, to continue their term of office and to vacate office in accordance with the terms of their appointment or reappointment after the end of the relevant period, when the temporary disapplication of the maximum tenure of office cease to have effect.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Department of Health and Social Services, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2020 Rhif 585 (Cy. 133)

2020 No. 585 (W. 133)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

**NATIONAL HEALTH
SERVICE, WALES**

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd
Gwladol (Datgymhwyso Dros Dro
Ddeiliadaeth Swydd) (Cymru)
(Coronafeirws) 2020

The National Health Service
(Temporary Disapplication of
Tenure of Office) (Wales)
(Coronavirus) Regulations 2020

Gwnaed 10 Mehefin 2020

Made 10 June 2020

Gosodwyd *gerbron* *Senedd*
Cymru 11 Mehefin 2020

Laid before Senedd Cymru 11 June 2020

Yn dod i rym 5 Gorffennaf 2020

Coming into force 5 July 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1), a pharagraff 4(1)(a), (b) ac (e) o Atodlen 2 iddi, paragraff 4(1)(a) ac (f) o Atodlen 3 iddi a pharagraff 5(a) o Atodlen 5 iddi.

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by section 203(9) and (10) of, and paragraph 4(1)(a), (b) and (e) of Schedule 2, paragraph 4(1)(a) and (f) of Schedule 3, and paragraph 5(a) of Schedule 5 to, the National Health Service (Wales) Act 2006(1).

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Datgymhwyso Dros Dro Ddeiliadaeth Swydd) (Cymru) (Coronafeirws) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 5 Gorffennaf 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y cyfnod perthnasol" yw'r cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y daw'r Rheoliadau hyn i rym ac sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021.

Title, commencement and interpretation

1.—(1) The title of these Regulations is the National Health Service (Temporary Disapplication of Tenure of Office) (Wales) (Coronavirus) Regulations 2020.

(2) These Regulations come into force on 5 July 2020.

(3) In these Regulations, "the relevant period" means the period starting with the day these Regulations come into force and ending on 31 March 2021.

(1) 2006 p. 42. *Gweler* adran 206(1) am y diffiniad o "regulations".

(1) 2006 c. 42. See section 206(1) for the definition of "regulations".

Deiliadaeth swydd aelod ac aelod cyswllt o Fyrddau Iechyd Lleol

2. Nid yw rheoliadau 6(5) a 7(5) o Reoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009(1) yn gymwys yn ystod y cyfnod perthnasol.

Deiliadaeth swydd cadeirydd a chyfarwyddwyr anweithredol Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru

3. Nid yw rheoliad 14(3) o Reoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009(2) yn gymwys yn ystod y cyfnod perthnasol.

Deiliadaeth swydd cadeirydd ac is-gadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'i aelodau nad ydynt yn swyddogion

4. Nid yw rheoliadau 6(5) a 7(4) o Reoliadau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (Cymru) 2009(3) yn gymwys yn ystod y cyfnod perthnasol.

Deiliadaeth swydd cadeirydd neu is-gadeirydd Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre

5. Nid yw rheoliad 8(5) o Reoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) 2012(4) yn gymwys yn ystod y cyfnod perthnasol.

Deiliadaeth swydd cadeirydd ac is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys

6. Nid yw rheoliadau 6(5) a 7(4) o Reoliadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys (Cymru) 2014(5) yn gymwys yn ystod y cyfnod perthnasol.

Tenure of office of a member and an associate member of Local Health Boards

2. Regulations 6(5) and 7(5) of the Local Health Boards (Constitution, Membership and Procedures) (Wales) Regulations 2009(1) do not apply during the relevant period.

Tenure of office of the chair and non-executive directors of Public Health Wales National Health Service Trust

3. Regulation 14(3) of the Public Health Wales National Health Service Trust (Membership and Procedure) Regulations 2009(2) does not apply during the relevant period.

Tenure of office of the chair, vice-chair and non-officer members of Welsh Health Specialised Services Committee

4. Regulations 6(5) and 7(4) of the Welsh Health Specialised Services Committee (Wales) Regulations 2009(3) do not apply during the relevant period.

Tenure of office of the chair or vice-chair of Velindre National Health Service Trust Shared Services Committee

5. Regulation 8(5) of the Velindre National Health Service Trust Shared Services Committee (Wales) Regulations 2012(4) does not apply during the relevant period.

Tenure of office of the chair and vice-chair of Emergency Ambulance Services Committee

6. Regulations 6(5) and 7(4) of the Emergency Ambulance Services Committee (Wales) Regulations 2014(5) do not apply during the relevant period.

(1) O.S. 2009/779 (Cy. 67), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(2) O.S. 2009/1385 (Cy. 141), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(3) O.S. 2009/3097 (Cy. 270), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(4) O.S. 2012/1261 (Cy. 156), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(5) O.S. 2014/566 (Cy. 67), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(1) S.I. 2009/779 (W. 67), to which there are amendments not relevant to these Regulations.
(2) S.I. 2009/1385 (W. 141), to which there are amendments not relevant to these Regulations.
(3) S.I. 2009/3097 (W. 270), to which there are amendments not relevant to these Regulations.
(4) S.I. 2012/1261 (W. 156), to which there are amendments not relevant to these Regulations.
(5) S.I. 2014/566 (W. 67), to which there are amendments not relevant to these Regulations.

Deiliadaeth swydd aelodau nad ydynt yn swyddogion o Addysg a Gwella Iechyd Cymru

7. Yn rheoliad 4(3) o Reoliadau Addysg a Gwella Iechyd Cymru 2017(1), nid yw'r geiriau "ond ni chaniateir i berson fod yn aelod nad yw'n swyddog am gyfnod cyfan sy'n hwy nag 8 mlynedd" yn gymwys yn ystod y cyfnod perthnasol.

Diwedd y cyfnod perthnasol

8. Caiff unrhyw berson a benodir neu a ailbenodir yn unol â'r Rheoliadau y cyfeirir atynt yn rheoliadau 2 i 7 o'r Rheoliadau hyn, fel y'u haddesir, barhau i ddal a gadael y swydd, ar ddiwedd y cyfnod perthnasol, yn unol â thelerau penodiad neu ailbenodiad y person hwnnw.

Vaughan Gething

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
10 Mehefin 2020

©Hawlfraint y Goron 2020

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Tenure of office of non-officer members of Health Education and Improvement Wales

7. In regulation 4(3) of the Health Education and Improvement Wales Regulations 2017(1), the words "but a person must not be a non-officer member for a total period of more than 8 years" do not apply during the relevant period.

End of the relevant period

8. Any person appointed or reappointed pursuant to the Regulations referred to in regulations 2 to 7 of these Regulations, as modified, may at the end of the relevant period, continue to hold and vacate office in accordance with the terms of that person's appointment or reappointment.

Vaughan Gething

Minister for Health and Social Services, one of the
Welsh Ministers
10 June 2020

© Crown copyright 2020

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£4.90

W202006101004 06/2020

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2020/585>

ISBN 978-0-348-20567-1



9 780348 205671